

Costau a chost-ffeithiolrwydd gwahanol fodolau gwasanaeth gofal lliniarol, gan ganolbwyntio ar ofal diwedd oes: Adolygiad cyflym

Mawrth 2024

Llinos Haf Spencer, Bethany Fern Anthony, Jacob Davies, Kalpa Pisavadia, Liz Gillen, Jane Noyes, Deborah Fitzsimmons, Ruth Lewis, Alison Cooper, Dyfrig Hughes, Rhiannon Tudor Edwards, Adrian Edwards, Mohammed Mahir Asef

Cefndir

Gellir darparu gofal lliniarol neu ofal diwedd oes gartref, mewn ysbytai neu hosbis, neu gyfuniad o'r ddau.

Nod

Nod yr adolygiad cyflym hwn yw **pennu costau a chost-ffeithiolrwydd y gwahanol fathau** o ofal lliniarol neu ofaldiwedd oes.

Sylfaen Dystiolaeth

Astudiaethau wedi'u cyhoeddi rhwng 2003 a 2023, gan gynnwys:

48
asutidaeth
sylfaen

Canfyddiadau allweddol

- Mae costau gofal diwedd oes ysbytai yn tueddu i fod yn uwch na gofal diwedd oes hosbis. Gofal lliniarol yn y cartref yw'r model lleiaf costus mewn llawer o astudiaethau.
- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y dylai **gofal lliniarol yn y cartref fod ar gael i bob claf** sydd yn amlwg yn y cyfnod diwedd oes ac sy'n dymuno aros a marw gartref.
- Dylai cynllunwyr gofal iechyd anelu at **leihau derbyniadau i'r ysbyty** ar ddiwedd oes ond dim ond os yw **mynediad at ofal cartref o safon ar ddiwedd oes wedi'i warantu**.
- Dylai cleifion gael dewis o ble mae'n well ganddyn nhw farw **heb symud y costau o'r system gofal iechyd** i'r rhai sy'n gofalu am y cartref, gan wneud y costau'n anweledig.

Cynhelir yr astudiaethau hyn yn bennaf o **safbwynt y system gofal iechyd**, gan anwybyddu costau sy'n gysylltiedig â baich economaidd cleifion / gofalwyr.

Argymhellion ar gyfer ymchwil yn y dyfodol

Mae angen ymchwil bellach yn y DU ynghylch **gwerthuso gwasanaethau newydd** fel y Gwasanaeth Gofal Uwch (ESC), yn ogystal ag ymchwil bellach i'r **dulliau mwyaf effeithiol o werthuso modelau gofal lliniarol**.



I weld yr adroddiad llawn ewch i:

<https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2024.03.06.24303850v1.full-text>